# Cofnodion

# Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Teitl y Cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Skype

**Dyddiad y Cyfarfod:** 11 Mai 2020

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Ruth Jenkins, CNC

Bob Vaughan, CNC

Marc Williams, CNC

Martyn P Evans, CNC

Katy Simmons, CNC

Aled Jones, UAC

Rachel Lewis-Davies, NFU

Geraint Davies CNC

Chris Blake, CNC

Antony Geddes, Confor

Tim Kirk, Confor

Elliott Rillie CLA

Spencer Conlon, LlC

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** dim

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Marc Williams (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

**Ymddiheuriadau:**

Mark Alexander, LlC

Hedd Pugh, NFU

Sian Thomas, CFfI Cymru

John Browne, CNC

Dominic Driver, CNC

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

3. Adolygodd y Grŵp gofnodion y Cyfarfod ym mis Chwefror 2020 a'u cymeradwyo gan eu bod yn gofnod cywir.

4. Adolygodd y Cadeirydd y Cofnod Gweithredu, gan nodi'r camau a gyflawnwyd:

    - PG02 Chwefror: Bod Spencer Conlon yn codi'r mater gyda Mark Alexander ac yn dosbarthu'r Pecyn Gwybodaeth Argyfwng.

    - PG03 Chwefror: Ni chynlluniwyd rhagor o ddatblygiadau na digwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol oherwydd COVID-19.

    - PG04 Chwefror: Bydd y gwahoddiad i'r Dr Cerys Jones ddod i gyfarfod yn y dyfodol yn cael ei fwrw ymlaen tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn oherwydd yr amgylchiadau presennol.

    - PG05 Chwefror: Bod Spencer Conlon yn codi'r cam gweithredu hwn gyda Mark Alexander ac yn ei ddosbarthu.

    - PG06 Chwefror: Rhoddodd Ruth Jenkins ddiweddariad ar ryddhau afancod yn Nyffryn Dyfi:

      Mae CNC wedi cael dau gais gwahanol am drwyddedau i ryddhau afancod Ewropeaidd yn Nyffryn Dyfi. Daeth un i law oddi wrth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn a'r llall oddi wrth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru.

Gofynnodd CNC am wybodaeth ychwanegol ac eglurhad yng nghyswllt y ddau gais fel rhan o broses asesu'r drwydded. Daeth yr wybodaeth hon i law ac mae'r cais yn cael ei asesu'n ffurfiol bellach yn unol â'r weithdrefn drwyddedu safonol. Sefydlwyd grŵp llywio o randdeiliaid lleol ar gyfer y prosiect ac mae CNC yn gynrychiolydd arno. Mae CNC hefyd yn aros i Asesiad Risg Afiechyd gael ei werthuso gan Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru. Pan fydd yr holl wybodaeth wedi dod i law, mae'r Gwasanaeth Caniatáu yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cais, ar ffurf ymgynghoriad ar-lein dros y We.

- PG07 Chwefror: Yn disgwyl sylw

## Eitem 3 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Creu Coetir Fforwm Rheoli Tir Cymru

5. Rhannodd Chris Blake, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Creu Coetiroedd Fforwm Rheoli Tir Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf o rith-gyfarfod cyntaf y grŵp a gynhaliwyd ychydig o wythnosau yn ôl. Roedd nifer da yn bresennol yn y cyfarfod, gyda mwy nag 20 o aelodau wedi mewngofnodi trwy Skype. Drafftiwyd y Cylch Gorchwyl ynghyd â chofnodion y cyfarfod a bydd modd i'r rhain gael eu rhannu â Fforwm Rheoli Tir Cymru. Bydd y grŵp yn sefydlog am 12 mis a'r nod yw llunio argymhellion ar yr hyn y gellir ei wneud i gefnogi creu rhagor o goetiroedd ledled Cymru, gan symud tuag at darged o 2,000ha y flwyddyn. Cyflwynir yr argymhellion hyn i Fforwm Rheoli Tir Cymru ac os bydd y grŵp yn eu cymeradwyo, cânt eu cyflwyno i'r Gweinidog mewn da bryd cyn yr etholiadau yn y Gwanwyn.

6. Rhoddwyd dau gyflwyniad gan CNC yn y cyfarfod ynghylch yr adolygiad o'r broses reoleiddio fewnol a phroses y Goedwig Genedlaethol.

7. Nododd y Cadeirydd fod hwn yn gyfarfod cadarnhaol. Adleisiodd Anthony Geddes y sylw hwn ond mynegodd bryderon fod amrywiaeth ac ystod barn ar greu coetir. Y cam nesaf yw bod y grŵp yn dod â phawb ynghyd ac yn chwilio am dir cyffredin.

8. Roedd Ruth Jenkins yn deall y gall grŵp mawr fod yn anodd, ond mae cael ystod eang o syniadau a safbwyntiau ar y cyfleoedd a'r rhwystrau o ran creu coetir yn werthfawr dros ben. Gellir chwilio am adnoddau i helpu i hwyluso a rheoli'r grŵp.

9. Cadarnhaodd Dennis Matheson y bu'r cyfarfod yn ddefnyddiol ond nododd nad oedd dim sôn am denantiaid. Roedd tuedd i ganolbwyntio mwy ar berchnogion tir, ond dylai tenantiaid gael eu cynnwys. Cadarnhaodd Chris Blake fod hyn wedi'i nodi ac y byddai'n cael ei ystyried.

10. Gofynnodd Geraint Davies a fyddai unrhyw aelodau o'r grŵp yn cyflawni'r targed hwn ar gyfer plannu coed ac a fyddant yn cefnogi'r argymhellion. Nododd Chris Blake y byddai is-grwpiau yn cael eu sefydlu i ganolbwyntio ar faterion penodol. Nid oedd Undebau'r Ffermwyr wedi gallu dod i gyfarfod cyntaf y grŵp oherwydd problemau COVID-19 ond byddant yn sicrhau bod modd iddynt ddod i'r cyfarfod nesaf. Mae'r grŵp yn gobeithio argymell dull gweithredu a gosod llwybr clir ymlaen. Pan fydd hynny wedi'i gwblhau, bydd grŵp pellach yn cael ei sefydlu neu'n esblygu o'r grŵp presennol er mwyn llunio cynllun cyflawni.

## Eitem 4 Diweddariad CNC

11. Cyflwynodd Ruth Jenkins ddiweddariad ar Gynllun Busnes CNC, a fydd ar gael yn fuan ar wefan CNC. Mae’r canolbwyntio pendant ar themâu allweddol CNC ynghylch lliniaru ac addasu i’r newid yn yr hinsawdd, yn parhau eleni. Mae ymateb i’r Argyfwng Natur yn thema arall allweddol ac elfen hanfodol bwysig ochr yn ochr â hynny yw’r ffordd y bydd CNC yn gweithio gyda phartneriaid a pherchnogion tir i gefnogi a chyflawni’r themâu. Mae Brexit yn faes arall y mae CNC yn dal i ganolbwyntio arno, gan ddarparu cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru, a sut y gall y sefydliad ymateb i wahanol sefyllfaoedd Brexit. Fodd bynnag, mae rhai o’r staff a gyflogwyd i gyflawni’r gwaith Brexit wedi cael eu symud er mwyn delio â’r ymateb i COVID-19, yn enwedig o ran dull rheoleiddio CNC a newidiadau yn y maes polisi.

    ***PG01 Mai: Bod yr Aelodau’n cysylltu â Ruth Jenkins os ydynt am gael golwg ar Gynllun Busnes CNC (Pawb).***

12. Mae CNC wedi datblygu cynlluniau da o ran parhad busnes yn ystod argyfwng y Coronafeirws a bu modd i lawer o’r staff weithio gartref, ond gan sylweddoli bod angen cefnogi’r rhai sy’n gofalu am blant a phobl fregus. Bu’r staff yn ailgynllunio eu gwaith yng nghyswllt cyllidebau CNC a sut y gellir cyflawni prosiectau. Mae CNC yn dal i ddilyn y canllawiau a bennwyd gan LlC ynghylch gweithio’n ddiogel, yn enwedig o ran gweithwyr yn y maes.

13. Bu CNC yn gweithio gyda LlC ynghylch y gwariant cyfalaf a darparu arian cyfalaf ar gyfer meysydd gwaith penodol, gan ganolbwyntio ar ansawdd dŵr. Bydd arian hefyd i edrych ar reoli pysgodfeydd a rheolaeth amgylcheddol afonydd ar draws Cymru. Roedd gwybodaeth bellach am y strategaeth cyllid grant eisoes wedi cael ei rhannu â’r grŵp. Mae tri math o grant, sef cyllid Cais am Ganlyniad a Rennir, cyllid Strategol a Ddyrannwyd a’r cyllid Grant Cystadleuol. Fodd bynnag, mae CNC wedi penderfynu atal y Grant Cystadleuol eleni gan y bydd yn anodd i bobl gyflwyno cais am grantiau cystadleuol eu natur nes bod y ddau grant arall wedi ymsefydlu.

14. Defnyddiwyd Cytundebau Rheoli Tir i gyllido safleoedd Natura 2000 yn y gorffennol ond mae newidiadau i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn golygu bod CNC yn gallu defnyddio’r cytundebau mewn modd ehangach. Nid yw hynny’n rhan o’r Strategaeth Cyllid Grant ar hyn o bryd.

15. Bydd CNC yn cynnal adolygiad eleni ac yn sefydlu rhaglen Gwella Busnes i edrych ar sut y gellir defnyddio’r Cytundebau Rheoli Tir a sut y gall CNC weithio gyda pherchnogion tir. Bydd yr adolygiad yn cynnwys cyfathrebu â chwsmeriaid. Rhaid nodi na fydd CNC yn atal y cytundebau rheoli tra bydd yr adolygiad ar waith.

16. Roedd pryderon ynghylch ffenestri 7 ac 8 cyllid Adfer Coetir Glastir y mae risg y bydd LlC yn eu dileu. Mae’r cam hwn fel petai’n mynd yn groes i’r hyn a nodir yn Strategaeth Cyllid Grant CNC. O ganlyniad, bydd pryderon am golli blwyddyn arall o blannu. Bydd yn bwysig cael gwybod a yw’r cyllid wedi’i atal er mwyn annog perchnogion tir i gyflwyno cais o dan ffenestr 9 Creu Coetir Glastir (GWC), lle mae cyllid sicr. Mae CNC yn cael ar ddeall bod y pecyn llai o arian sydd ganddo i gefnogi prosiectau yn wahanol i’r pecynnau cyllido sydd gan LlC. Cadarnhaodd Spencer Conlon fod COVID-19 yn golygu bod holl gyllidebau LlC yn cael eu hadolygu. Nid yw CNC wedi gweld unrhyw gyfarwyddyd gan LlC i atal unrhyw waith cyfredol ar ffenestri 7, 8 a 9 GWC.

***PG02 Mai: Bod Spencer Conlon yn holi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cymorth cyllid Llywodraeth Cymru ac yn rhannu'r wybodaeth â'r aelodau.***

***PG03 Mai: Bod CNC yn rhoi diweddariad ar y Cynllun hirdymor i Reoli Coedwigoedd (John Browne, CNC)***

17. Cyflwynodd Bob Vaughan ddiweddariad ar yr ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Bu staff CNC yn cydweithio'n agos â rhai o aelodau'r grŵp ar gynnwys y gwahanol benodau. Mae'r mwyafrif o'r penodau wedi'u paratoi i raddau helaeth ac mae CNC wedi dechrau ar y camau nesaf i dynnu'r ddogfen ynghyd a'i chyhoeddi yn nes ymlaen yn y flwyddyn cyn etholiadau'r Senedd.

18. Cyhoeddwyd y Datganiadau Ardal (AS) ar 1af Ebrill ac anfonwyd llythyr at y grŵp yn rhoi eglurhad rhagofalus o'r rhesymau dros fynd yn fyw bryd hynny. Eglurodd Martyn Evans y bu'n rhaid i CNC adolygu'r cynlluniau ymgysylltu oherwydd yr amgylchiadau ar y pryd. Fodd bynnag, bydd yn edrych ymlaen at ailgychwyn ymgysylltu wyneb yn wyneb ar lefel leol a lefel lleoedd, ynghyd â pheth ymgysylltu cenedlaethol. Mae ffyrdd o barhau i ymgysylltu o bell ac yn rhyngweithiol ar-lein. Cafwyd llawer o adborth ar bob un o'r saith maes ar y wefan, ac mae'r rhain yn cael eu dadansoddi gan staff CNC. Roedd y Gweithdy ynghylch y Datganiad Ardal Cenedlaethol a gynhaliwyd y llynedd yn ddefnyddiol dros ben ac yn werthfawr o ran parhau i feithrin cysylltiadau ac ymddiriedaeth. Bydd CNC yn edrych ar ymgysylltu mewn modd tebyg â'r sectorau amaeth a choedwigaeth yn nes ymlaen eleni.

***PG04 Mai: Bod CNC yn dosbarthu rhagor o wybodaeth i'r grŵp am gynlluniau i ymgysylltu yn y dyfodol ynghylch y Datganiadau Ardal (Martyn Evans, CNC)***

19. Mae Anthony Geddes wedi cael adborth ynghylch creu coedwig ar gyfer cynhyrchu pren ac mae pryderon ynghylch diffyg dealltwriaeth o'r hyn y gall coedwig ar raddfa fawr ei ddarparu. Bydd Confor yn rhoi ymateb i CNC gyda sylwadau ar y Datganiadau Ardal. Mae angen adolygu'r testun yng nghyswllt y Datganiadau Ardal, yn enwedig ar fater coedwigaeth. Felly, byddai cyfle i drafod ag arweinwyr yr holl Ddatganiadau Ardal i ddatblygu eu dealltwriaeth o goedwigaeth. Cadarnhaodd Martyn Evans fod lle i archwilio'r mater hwn ymhellach ac yr oedd yn fodlon trefnu cyfarfod gydag unrhyw aelodau o'r grŵp i drafod â'r Arweinwyr Ardal.

20. Cadarnhaodd Martyn Evans nad oedd y Datganiadau Ardal wedi'u hysgrifennu o safbwynt proffesiynol ond eu bod, yn hytrach, yn cofnodi naws mewnbwn yr holl randdeiliaid. Mae Confor yn cyhoeddi papur ar fioamrywiaeth mewn coedwigaeth a choedwigaeth fasnachol. Mae'n gobeithio y bydd modd darparu gwybodaeth ac addysg am yr hyn sydd ar goll o'r Datganiadau Ardal.

***PG05 Mai: Bod Martyn Evans yn trefnu cyfarfod i drafod y Datganiadau Ardal ag Arweinwyr y Datganiadau Ardal a Confor.***

21. Holodd Dennis Matheson a oedd y Datganiadau Ardal yn rhoi sylw i brosiect cynaliadwyedd tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) a gyllidir gan LlC wrth ystyried addasrwydd tyfu cnydau a choed tan 2050. Cadarnhaodd Ruth Jenkins fod yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal yn brosesau byw a bod CNC yn ymateb i unrhyw dystiolaeth newydd sy'n dod i law.

***PG06 Mai: Bod CNC yn rhannu'r adroddiad ar Gynaliadwyedd tir amaethyddol BMV ag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Marc Williams, NRW).***

22. Dywedodd Geraint Davies fod cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig yn diflannu ac yn newid ar gyfer y cam nesaf, ond bod swm mawr o arian yn dal wedi'i neilltuo i'r gronfa honno. Byddai'n dda defnyddio'r cyllid hwn, yn y tymor byr, cyn newid i'r system newydd o daliadau yn y dyfodol. Mae cefn gwlad Cymru yn colli llawer o gyfleoedd gan nad oes cyllid ar gael. Dywedodd LlC eto fod yr holl becynnau cyllid, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael eu hadolygu oherwydd yr amgylchiadau presennol. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r pecynnau cyllid hyn ar gael, ond eu bod yn rhan o gwmpas y broses adolygu.

## Eitem 5 Diweddariad gan Aelodau eraill Fforwm Rheoli Tir Cymru

23. NFU Cymru: Eglurodd Rachel Lewis-Davies fod yr Undeb yn canolbwyntio'i holl ymdrechion ar gefnogi'r aelodau yn ystod argyfwng COVID-19. Roedd y prif bryderon yn ymwneud â mynediad, materion yn ymwneud â gwaredu a chasglu llaeth, a'r gostyngiad ym mhrisiau llaeth. Croesawyd y pecyn cymorth y mae LlC yn ei gynnig i'r sector llaeth a gafodd ei daro galetaf. Mae'r argyfwng yn y sector cig eidion yn parhau yn sgil newidiadau yn y gadwyn gyflenwi.

24. UAC: Adleisiwyd y pryderon a fynegwyd gan NFU Cymru ond mae Aled Jones wedi bod yn canolbwyntio ar y sector llaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Rhoddwyd gwybod i UAC am ragor o achosion o dipio anghyfreithlon oherwydd diffyg cyfleusterau ar gyfer casglu gwastraff a'i waredu'n ddiogel. Mae aelodau o UAC wedi cwyno bod y taliadau Glastir i ffermwyr mor araf. Mae tua hanner y taliadau Glastir Uwch a Thir Comin wedi'u talu sy'n siomedig gan fod hwn yn incwm yr aed hebddo y llynedd.

25. TFA: Mynegodd Dennis Matheson ei bryder bod y Prif Weinidog wedi cyhoeddi newid yn y rheolau yng Nghymru dros y penwythnos, a fydd yn achosi rhagor o broblemau mynediad, yn enwedig ar hyd y gororau. Mae risg uwch y bydd tanau'n ymledu oherwydd bod y tywydd sych yn parhau a rhaid tynnu sylw at negeseuon sy'n gofyn i'r cyhoedd fod yn wyliadwrus wrth gynnau tannau. Bu Dennis yn y Fforwm Dŵr yn Wrecsam lle trafodwyd dileu coredau i helpu pysgod sy'n mudo. Tynnodd sylw yn y cyfarfod at fanteision cynlluniau dŵr ac y dylid ystyried y manteision eraill cyn cael gwared ar strwythurau. Cadarnhaodd Ruth Jenkins y bydd gofyn cael caniatâd a thrwyddedau tynnu dŵr a chronni dŵr cyn bod cynlluniau dŵr yn cael eu gosod. Felly, bydd y cynlluniau hyn yn dod i gysylltiad â CNC a bydd unrhyw broblemau o ran llwybrau pysgod yn cael sylw.

26. Confor: Soniwyd am y problemau sy'n parhau o ran clefyd coed ynn a nifer y coed ynn mawr sydd â phroblemau a'r costau i ffermwyr. Mae'r tywydd sych yn golygu bod meithrinfeydd planhigion yn wynebu anawsterau o ran nifer y coed fydd ar gael y flwyddyn nesaf. Mae pryder ar hyn o bryd ynghylch rhaglen y Goedwig Genedlaethol a fydd bellach â llecynnau bach yn unig o goedwig genedlaethol ar draws Cymru. Mae coedwigaeth yn brosiect lle cedwir pellter cymdeithasol i raddau helaeth ac mae'r gwaith o gynnal a chadw'r ardaloedd plannu yn parhau. Mae'r diwydiant melinau coed wedi ailgychwyn, a gobeithir y bydd y busnes yn prysuro yn ystod y mis nesaf. Roedd

Ruth Jenkins am sicrhau'r aelodau bod staff CNC wedi parhau i reoli'r ystad goetir a sicrhau bod ochr goedwigaeth y busnes yn dal i symud.

27. CLA: Nid oedd dim diweddariadau pellach i'w rhoi ac roedd popeth wedi cael sylw gan yr aelodau eraill.

## Eitem 6 Diweddariadau gan y Fforymau

28. Nid oedd diweddariadau penodol gan y Fforymau. Mae cofnodion y Fforwm Pysgodfeydd wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau o'r grŵp.

29. Roedd y Cadeirydd am roi diweddariad i'r grŵp ar y penodiadau newydd yn CNC. Mae'r rhain yn cynnwys:

    - Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnach – Sarah Jennings
    - Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol – Rachael Cunningham
    - Pennaeth Profiad Cwsmeriaid – Naomi Lawrence
    - Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth – Yr Athro Peter Freer-Smith.

    Byddant yn cryfhau tîm arwain CNC ac mae'r Cadeirydd yn edrych ymlaen at gael gweithio gyda nhw i gyd.

30. Yn ogystal, cyflwynodd y Cadeirydd Katy Simmons i'r grŵp, sef y Swyddog Cyfathrebu newydd ar gyfer Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r Is-grŵp Llygredd Amaethyddol.

## Eitem 7 Manylion y cyfarfodydd yn y dyfodol

31. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw:

    - Dydd Mercher 9 Medi 2020

## Eitem 8 Unrhyw Fater Arall

32. Gofynnodd Dennis Matheson am ddiweddariad ynghylch Trwyddedau Cyffredinol gan CNC. Dywedodd Ruth Jenkins nad oedd diweddariad penodol. Fodd bynnag, mae CNC yn cynnal adolygiad o'r Trwyddedau Cyffredinol eleni ac yn delio ag Adolygiad Barnwrol o rai agweddau ar y Trwyddedau Cyffredinol.

## Diwedd y Cyfarfod